Plentyn y Nadolig

Byddwn yn casglu bocsys esgidiau'n llawn o anrhegion i blant sy'n wynebu amgylchiadau caled oherwydd newyn neu ryfel eto trwy ymdrech flynyddol Ymgyrch Plentyn y Nadolig.

Bydd yr holl focsys a gaiff eu cyfrannu gan ysgolion Sul, capeli, eglwysi ac ysgolion yng Ngogledd-orllewin Cymru yn hanfon o'r ganolfan arbennig a fydd yn agored am wythnos yn festri capel y Wesleaid yn Llandrillo yn Rhos, ger Bae Colwyn. Bydd honno'n agor o ddydd Llun, Tachwedd 18 hyd ddiwedd yr wythnos.

Felly, bydd gofyn i ni gael y bocsys yn barod erbyn dydd Sul, Tachwedd 17 er mwyn i ni allu trefnu bod y lori a fydd yn mynd o amgylch i gasglu'r bocsys yn dod heibio i ni.

Gallwch ddod â'r bocsys fel arfer i'r capel neu yma'n uniongyrchol i mi yn Nghilfynydd, Llanberis.

Cyhoeddiadau

CEFNYWAUN AC EBENESER

Nos Lun, Hydref 28: Y Gymdeithas Undebol yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni'r Parchg Huw John Hughes, Porthaethwyr. Croeso cynnes i bawb.

Dydd Sul, Tachwedd 3: Gwasanaethir am 9.30 a 5.00 o'r gloch gan y Gweinidog. Bydd yr Ysgol Sul am 10.15 o'r gloch.

CAPEL COCH A NANT PADARN

Dydd Sul, Tachwedd 3: Mr Ifor Glyn Efans, Capel Curig fydd yn arwain yr oedfa am 10.00 o'r gloch. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch. Y Parchg Marcus Robinson, Bethel fydd yn arwain yr oedfa am 5.00 o'r gloch.

REHOBOTH

Dydd Sul, Tachwedd 3: Dim oedfa.

COFIWCH AM SUL EFE
Tachwedd 17
yn y Ganolfan Llanberis
11.30 – 1.00 o'r gloch

Y mis nesaf - Deiniolen

Hydref 27
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

Tachwedd 3
9.30 a.m. - Oedfa Deulu
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 10
9.15 a.m. - Oedfa Sul y Cofio (wrth y Gofgolofn)
10.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Y mis nesaf - Llanberis

Hydref 27
10.00 a.m. - Y Gweinidog
Dim Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Gweinidog

Tachwedd 3
10.00 a.m. - Mr Ifor Glyn
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Y Parchg Marcus Robinson

Tachwedd 10
10.00 a.m. - Y Gweinidog
11.15 a.m. - Ysgol Sul
5.00 p.m. - Oedfa MOLI

Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Deiniolen, Llanberis a Nant Peris
Rhif 564 – Dydd Sul, 27 Hydref 2013

Troi'r cloc

Gofioch chi?

Ddwywaith y flwyddyn y byddwn ni'n troi'r cloc, yn y gwanwyn a'r hydref. O'm rhan fy hun, mae'n well gen i droi'r cloc yn ôl, fel y gwnaed neithiwr, gan fod hynny'n rhoi awr ychwanegol o gwsg i ni. Ond wedi dweud hynny, mae'n well gen i ganlyniadau'r hyn a wnawn yn y gwanwyn, gan fod troi'r cloc ymlaen yn golygu ymestyn oriau'r dydd. Er brafied yr awr ychwanegol yn y gwely, bydd yn chwith iawn gweld y dydd yn cau amdanom yn gynharach a chynharach o hyn hyd droad y rhod.

Mae yna ddigon o bethau deniadol sy'n dod â chanlyniadau gwael yn eu sgil: pob math o bethau sydd ar yr olwg gyntaf yn ymddangos yn werth eu cael a'u gwneud.

Roedd hynny'n sicr yn wir am y Mab Afradlon y soniodd Iesu Grist amdano yn un o'i ddamhegion. Meddyliodd hwnnw bod yna well byd y tu draw i ffiniau ei gartref. Mynnodd ei siâr o eiddo'i dad a mynd a'i adael ef a gweddill y teulu. Ond buan y gwariodd bob ceiniog a mynd i drafferthion mawr. Roedd canlyniadau dychrynllyd o drist i'r hyn oedd yn ymddangos mor ddeniadol ar y cychwyn.

Ond wrth droi'r cloc ymlaen yn y gwanwyn, er na fydd nemor neb yn edrych ymlaen at golli awr o gwsg, mor braf fydd gweld y dydd yn ymestyn a'r nosweithiau golau, braf yn dychwelyd unwaith eto.

Ac mae yna bethau eraill, nad ydyn nhw'n ddeniadol o gwbl, a hyd yn oed brofiadau digon chwerw, sy'n dod â bendithion mawr i ni. Fyddem ni byth yn croesawu'r pethau hynny. Ac eto gall profiadau na fyddem ni yn eu dewis o gwbl ddod â'u cysuron a'u llawenydd mewn ffyrdd annisgwyl.

Dyna hanes y dyn a welir yn un arall o ddamhegion yr Iesu. Dechrau digon truenus oedd i'r dyn fu mewn helynt ar y ffordd o Jerwsalem i Jericho. Fe'i curwyd gan ladron a'i adael yn hanner marw ar ymyl y ffordd. Aeth offeiriad a Lefiad heibio heb ei helpu. Fyddai'r dyn byth wedi dewis dioddef fel hyn. Ac eto, cafodd garedigrwydd na fyddai wedi ei ddychmygu. Daeth dyn dieithr o Samaria a thosturio wrtho. Ac wrth i'r Samariad ei helpu a mynd ag ef i ddiogelwch y llety a thalu i'r lletywr am ei ymgeleddu, fe brofodd y dyn hwn y cariad y bu Iesu'n sôn cymaint amdano ac yn galw pobl i'w ddangos. Doedd y dyna a gurwyd ddim yn chwennych y trafferthion, ond daeth bendithion mawr trwy'r cyfan.

Mewn gwaeledd a phrofedigaeth a thrafferthion o bob math mae llu o Gristnogion yn medru tystio iddynt brofi daioni a chariad y Duw Byw sy'n agosáu atynt yng nghanol eu hofnau a'u poen. Gweddi'r Cristion yn amlwg ddylai fod, 'Nac arwain ni i brofedigaeth'. Ond os daw trafferth a phrofedigaeth, trugaredd Duw ei fod yn medru ein cynnal trwy'r cyfan, a'n synnu'r un pryd.

Gofalaeth Unedig
Deiniolen, Llanberis a Nant Peris

Cefnywaun (P), Deiniolen
Ebeneser (A), Deiniolen
Capel Coch (P), Llanberis
Nant Padarn A), Llanberis
Rehoboth (P), Nant Peris

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd
Ffôn: 01286 872390
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:
gronyn.wordpress.com
neu gronyn.org

Heddiw

Croeso i oedfaon Sul arall. Gweddiwn am fendith Duw ar ein haddoliad.

Nid oes Ysgol Sul yn Neiniolen heddiw oherwydd gwyliau hanner tymor yr ysgol. Gwasanaethir am 5.00 o'r gloch gan y Parchg Trefor Jones, Caernarfon.

Byddaf fi'n arwain yr oedfaon yn Capel Coch am 10.00 a 5.00 o'r gloch. Nid oes Ysgol Sul oherwydd y gwyliau.

Byddaf yn arwain yr oedfa yn Rehoboth am 2.00 o'r gloch.

Cofion

Cyfarfod Misol

Cyfarfu cynrychiolwyr Henaduriaeth Arfon yng Nghapel y Rhos, Llanrug ddydd Mawrth diwethaf, Hydref 22.

Yng ngwasanaeth yr hwyr ordeiniwyd Mrs Falmai Pritchard yn flaenor yn Capel Coch. Llywydd yr oedfa oedd Mrs Lowri Prys Roberts Williams a chymerwyd rhan gan y Parchg John Pritchard, Mr Colin Jones, y Parchg Gwenda Richards a Mr Huw Tudor, Pwllheli, Llywydd Cymdeithasfa'r Gogledd Eglwys Bresbyteraidd Cymru. Dymunwn yn dda i Falmai yn y gwaith.

Diolch yn fawr iawn i aelodau Capel Coch a ddaeth yno i fod yn rhan o'r oedfa.

Llongyfarchiadau

Wrth groesawu'r Parchg Trefor Jones i'r oedfa yn Neiniolen heno estynnwn ein llongyfarchiadau gwresog iddo, fel a wnaed yn yr Henaduriaeth nos Fawrth, am gwblhau 60 o flynyddoedd o waith fel gweinidog yr Efengyl. Dymunwn yn dda iddo gan ddiolch i Dduw am y nerth a'r iechyd a gafodd i gyflawni ei weinidogaeth ar hyd y blynyddoedd; a diolch yn arbennig am ei wasanaeth i eglwysi'r Ofalaeth hon bob amser.

Diolchgarwch

Llanberis

Yn yr oedfa yn Capel Coch am 10.00 o'r gloch heddiw ceir pregeth ar gyfer y Diolchgarwch gan y Gweinidog.

Deiniolen

Cynhaliwyd Gwasanaeth Diolchgarwch yn ystod yr Oedfa Deulu yn Neiniolen fore Sul diwethaf dan arweiniad y Gweinidog. Diolch yn fawr iawn i'r plant am gymryd rhan ac i athrawon yr Ysgol Sul a'r rhieni am eu cymorth.

Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Eirlys Hughes, 1 Porth y Gogledd, Deiniolen yn y brofedigaeth fawr o golli ei hunig ferch, Ceri yng Nghaerlŷr ddydd Mawrth diwethaf, Hydref 22, yn 31 mlwydd oed. Cydymdeimlwn hefyd â Phil, gŵr Ceri, yn ei brofedigaeth yntau. Cafodd Ceri flynyddoedd o waeledd, ond diolchwn i Dduw am y gynhaliaeth a gafodd a'r ffydd a fu'n gysur ac yn nerth iddi hi a'i theulu trwy'r cyfan. Bu farw chew blynedd union i ddyddiad ei phriodas. Bydd ei chyfeillion yn cofio merch ifanc addfwyn ac annwyl, a gwraig ifanc a fu'n eithriadol o ddewr a phenderfynol o fwynhau a byw bywyd i'r ymylon er gwaethaf yr holl waeledd a ddioddefodd.

Cynhelir gwasanaeth angladd Ceri yn Eglwys Llandinorwig ddydd Gwener nesaf, Tachwedd 1. Diolchwn ymlaen llaw am gael cynnal y gwasanaeth yno.

Cyfarfod Chwarter

Cynhelir Cyfarfod Chwarter Cyfundeb Annibynwyr Gogledd Arfon yng Nghanolfan Capel Curig (dan nawdd Eglwys Annibynnol Nantybenglog) am 7.00 o'r gloch nos Fawrth, Hydref 29.

Cymdeithas Undebol

Cynhelir Cymdeithas Undebol Deiniolen yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch nos yfory, nos Lun, Hydref 28. Y gŵr gwadd fydd y Parchg Huw John Hughes, Porthaethwy. Mae croeso cynnes i bawb i'r cyfarfod fel arfer.

Cyfarfod Blynyddol Efe

Cynhelir cyfarfod Blynyddol Cynllun EFE yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00 o'r gloch, nos Lun, Tachwedd 4. Mae croeso i bawb i'r cyfarfod hwn. Wnewch chi barhau i weddio dros lwyddiant y gwaith os gwelwch yn dda.

Sul Efe

Cynhelir Sul Efe yn Y Ganolfan, Llanberis rhwng 11.30 ac 1.00 o'r gloch dydd Sul, Tachwedd 17.

Fel y llynedd gobeithiwn gael cwmni ysgolion Sul yr ardal yn y digwyddiad hwn, a bydd gwahoddiad yn cael ei roi i bob un ohonynt.

Yn wahanol i'r llynedd, ni fydd taith gerdded y tro hwn ond pawb i ddod i'r Ganolfan ar eu hunion.

Cinio Cawl Capel

Ar ôl yr Oedfa Deulu yn Capel Coch fore Sul, Tachwedd 24, bydd croeso i bawb aros i ginio yn y festri.

Bydd hwn yn gyfle i ni gael pryd o fwyd efo'n gilydd er mwyn codi arian at Apêl Haiti Undeb yr Annibynwyr 2013-2014. Cawn gawl i ginio'r diwrnod hwnnw a bydd cyfle i bobl gyfrannu at yr Apêl hon a fydd yn codi arian at waith Cymorth Cristnogol yn Haiti. Gobeithio'n fawr y bydd cefnogaeth dda i'r Cinio y diwrnod hwnnw er mwyn rhoi cychwyn i'r gwaith o godi arian.

Ffair Nadolig

Bwriedir cynnal Ffair Nadolig yn Capel Coch brynhawn ddydd Mercher, Rhagfyr 4.

Bydd yno stondinau amrywiol ac os oes gennych nwyddau newydd neu bron yn newydd nad ydych eu heisiau, yna bydd y trefnwyr yn falch o'u cael ar gyfer y byrddau gwerthu. Bydd yno hefyd stondinau cacennau a thuniau bwyd, a gwerthfawrogir pob cyfraniad tuag at y rheiny.